# Hwyl i'r teulu - pethau i'w gwneud ar y traeth

**Casglu cregyn.** Wnewch chi ddim ffeindio cannoedd o gregyn môr ar draeth Ynys y Barri, ond os edrychwch chi’n ofalus fe welwch rai o'r cregyn môr cyffredin hyn ar hyd y draethlin a ger y pyllau glan môr ar naill ben y traeth.

| | | |
|---|---|---|
| Cragen maharen  | Cragen las / misglen  | Gwichiad  |
| Gwichiad moch  | Cocysen  | Gwichiad y gwymon  |
| Top môr llwyd  | Ewin mochyn  | Clust eliffant  |
| Cragen foch  | Top môr trwchus  | Wystrysen  |

**Chwilota mewn pyllau glan môr.** Cadwch lygad am berdys yn y pyllau, crancod yn sleifio dan wymon, a sêr môr yn cydio wrth y creigiau sy'n angori gwymon. Mae molysgiaid, cregyn llong ac anemonïau yn eistedd ar lawr y pwll, ac efallai y gwelwch granc meddal (un sy'n cymryd cragen newydd bob tro mae'n tyfu'n rhy fawr i'r hen un) os ydych chi'n lwcus!

*Cofiwch ddilyn y cod glan môr a thrin bywyd gwyllt gyda gofal. Cadwch un anifail yn unig mewn bwced ar unrhyw adeg, a pheidiwch â'u cadw allan o'r dŵr yn rhy hir. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi popeth 'nôl lle dewch chi o hyd iddyn nhw a pheidiwch â thynnu gwymon byw oddi ar y creigiau.*

**Llun traeth.** Casglwch fwy o bethau o'r traeth fel broc môr, gwymon sych, cerrig mân a gwydr môr. Yna defnyddiwch frigyn/ffon i dynnu llun yn y tywod a defnyddiwch eich darganfyddiadau i ychwanegu manylion a lliw. Beth am dynnu llun cwch neu fôr-forwyn?

**Chwilio am olion traed.** Gwnewch olion traed yn y tywod ac yna dilynwch olion traed eraill rydych chi'n dod o hyd iddyn nhw.  Efallai y gwelwch chi olion pawennau neu esgidiau neu draed o wahanol feintiau.

**Ysgrifennu eich enw yn y tywod.** Gan ddefnyddio eich bys neu frigyn, ysgrifennwch eich enw mewn llythrennau mawr yn y tywod. Neu os oes digon o le ysgrifennwch neges hwyl fel #hwylasbriarytraeth

**Gwneud tyrrau cerrig.** Dewch o hyd i gerrig gwastad o wahanol feintiau a gwneud tŵr. Pwy all wneud y tŵr cerrig talaf cyn iddo gwympo (neu'r tŵr gyda'r nifer fwyaf o gerrig cyn iddo gwympo!)

**Adeiladu cestyll tywod neu wneud cerflun tywod.** Peidiwch â phoeni os anghofioch chi eich bwced - gallwch chi greu cerflun allan o dywod o hyd. Ceisiwch wneud dolffin, crwban neu bysgodyn.

**Esgil/scots tywod.** Marciwch eich grid scots gyda brigyn ac ysgrifennwch y rhifau. Bydd angen i chi gael carreg i'w thaflu hefyd!

**Chwarae ffrisbi, gêm bêl neu hedfan barcud.** Mae traeth tywodlyd llydan, gwastad Ynys y Barri yn ddelfrydol ar gyfer rhedeg ar ôl ffrisbi neu bêl, ac ar adegau penodol o'r flwyddyn yn ddigon gwyntog i hedfan barcud.

**Gwneud stori gyda gwrthrychau rydych chi'n dod o hyd iddyn nhw.** Pa wrthrychau ydych chi wedi'u casglu a pha gymeriadau allen nhw fod? Crëwch gymeriadau - meddyliwch am sut allai'r gwrthrychau symud, pa symudiadau allen nhw eu gwneud, ble fydden nhw'n mynd ar y traeth neu sut allen nhw ryngweithio â'i gilydd. A fydd eich stori'n antur gyffrous o ddewrder, yn stori garu, neu'n daith o ddarganfod, gan oresgyn rhwystrau ar hyd y daith?